
PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD IAU, 16 CHWEFROR 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Stephen Churchman, Jean Forsyth, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Angela Russell, John Wyn Williams a R.H. Wyn Williams

Hefyd yn Bresennol: Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths, Brian Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn a Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) yn eitem 5 ar y rhaglen gan ei fod yn brif swyddog ac felly yn destun y Polisi Tal. Pe byddai yna unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw, byddai'n gadael y cyfarfod.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06.12.16 fel rhai cywir

5. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TÂL Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr Adroddiad Polisi Tâl gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

Yn ei gyflwyniad, amlygwyd rhai ychwanegiadau i'r polisi tal ar gyfer 2017/2018. Tynnwyd sylw at y gymhareb rhwng canolrif cyflog Prif Swyddogion a'r lleiafswm cyflog o fewn y Cyngor o 1:5 ynghyd a'r gymhareb rhwng y cyflog uchel (Prif Weithredwr) a'r cyflog isaf o 1:7.8. (cymhareb genedlaethol yn 1:20). Yn wahanol i'r arfer, oherwydd bod cytundeb tal cenedlaethol wedi ei gytuno arno am gyfnod o ddwy flynedd yn Mawrth 2016, roedd y Cyngor eisoes yn

ymwybodol beth fyddai lefel cyflogau staff a Prif Swyddogion oddi ar y 1af o Ebrill, 2017. Cyfeiriwyd at yr atodiad yn yr adroddiad ple'r oedd y manylion yn adlewyrchu cyflogau fel ag y byddant yn ymddangos ar gyfer 2017-18.

Yng nghyd-destun y cyflogau isaf nodwyd bod cyn Canghellor y Trysorlys mewn datganiad cyllidebol ar yr 8fed o Orffennaf 2015 wedi nodi'r angen i osod £7.20 yr awr fel 'cyflog byw' oddi ar y 1af o Ebrill, 2016 gan godi i £9.00 yr awr erbyn Ebrill 2020 (ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn). Adroddwyd y byddai pwynt 8 (sef isafswm cyflog y Cyngor) yn £7.90 yr awr (o'i gymharu â £8.45 yr awr a adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw) o'r 1af o Ebrill 2017. Nodwyd bod trafodaethau yn parhau gyda chynrychiolwyr undebau cydnabyddedig yn lleol i geisio codi'r isafswm yn agosach at yr hyn a adnabuwyd fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw erbyn Ebrill 2018.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am y cyflwyniad ac amlygodd y Cyngorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau Dynol) ei fod yn cefnogi'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a chystadlu gyda chwmnïau preifat e.e., ym maes gofal am swyddi sydd yn cynnig cyfraddau uwch o gyflog, eglurwyd bod isafswm tal gofalwyr yn seiliedig ar bwynt 10 (oddeutu £8.09 yr awr oddi ar y 1af o Ebrill, 2017) ond bod y rhan helaethaf o'r gofalwyr a gyflogir gan y Cyngor yn derbyn hyd at £8.54 yr awr oddi ar yr un dyddiad sydd eisoes yn uwch na'r Cyflog Byw. Derbyniwyd, fodd bynnag, bod trafferthion recriwtio yn y maes a bod angen rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â manteision pensiwn y Cyngor, derbyniwyd bod hyn yn ran allweddol o'r pecyn cyflogaeth a gynigir i staff a bod angen mwy o godi ymwybyddiaeth ymysg staff presennol yn ogystal a darpar ymgeiswyr am swyddi er mwyn iddynt sylweddoli gwerth llawn y pecyn cyflogaeth sydd ar gael.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

DERBYNIWYD YR ADRODDIAD YN UNFRYDOL YN UNOL Â'R ARGYMHELLIAD.

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor, ar Fawrth yr 2il 2017, fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2017 / 18.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a dechreuodd I ben 2:15pm

CADEIRYDD